

*Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill**Gwybodaeth am y rhaglen*

Mae'r Rhaglen TGCh a Chyfrifiadura Ôl-raddedig yn cynnwys nifer o gyrsiau a addysgir gwerth 15 a 30 pwynt credyd, a phrosiect ymchwil a thraethawd hir, y gellir eu cyfuno i ennill nifer o ddiplomâu a graddau MSc arbenigol, gan gynnwys Diploma Ôl-raddedig ac MSc mewn Rhwydweithio Estynedig, y mae'r cwrs hwn yn rhan ohonno.

Mae'r llwybr i gael MSc yn cynnwys dwy ran. Y cyntaf yw cwblhau'r cyrsiau a addysgir yn llwyddiannus sy'n arwain at ddiploma ôl-raddedig. Mae cwblhau'r prosiect ymchwil a thraethawd hir 10,000-15,000 o eiriau yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarniad MSc.

Mae'r cyrsiau a addysgir wedi'u cynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rheolwyr gweithredol ym meysydd peirianeg rhwydweithio, cyfrifiadura a gweithgynhyrchu, mewn diwydiannau gwasanaethu cysylltiedig â'r sector cyhoeddus, ac mewn sefydliadau addysgol. Disgwylir i fyfyrwyr gael rhywfaint o brofiad o dechnoleg rhwydweithio cyn iddynt ddechrau'r cyrsiau. Gallai profiad fod fel technegwyr cynorthwyol, peirianwyr rhwydweithiol, rheolwyr prosiect neu arbenigwyr dylunio, yn ogystal ag addysg/ardystiad blaenorol gan gwrs Cisco CCNA a gydnabyddir.

Mae'r Diplomâu a'r graddau MSc eraill sydd ar gael yn y rhaglen ym maes Datblygu Meddalwedd, Rheoli Prosiectau Meddalwedd, a Chyfrifiadureg ar gyfer Masnach a Diwydiant (CCI).

*Darlithwyr cyswllt*

Eich rôl ar y cyrsiau a addysgir yn y diploma yw gwneud sylwadau ar aseiniadau a'u marcio, rheoli dosbarth yr academi a thiwora myfyrwyr unigol dros y ffôn ac yn electronig. Byddwch yn ymwneud â chynnydd cyffredinol eich myfyrwyr; dylech geisio sicrhau eu bod yn cyflwyno pob aseiniad yn ogystal â'u hannog i gymryd rhan mewn fforymau ar-lein a mynd i'r ysgol ddydd orfodol cyn yr arholiad. Efallai y cewch gyfle i gyfrannu at ddeunydd y cwrs, er enghraifft, wrth greu aseiniadau.

Mae tiwtora ar y cyrsiau cyfrifiadura ôl-raddedig yn cynnwys cyfathrebu electronig helaeth a bydd angen mynediad band eang i'r rhyngwyd arnoch. Bydd yn ofynnol i chi ddefnyddio fforymau ar-lein i gyfathrebu â'r swyddfa Technoleg a Chyfrifiadura Ôl-raddedig yn Nottingham, sy'n rheoli'r holl benodiadau darlithwyr cyswllt ar y cyrsiau. Mae pob un o'r cyrsiau cyfrifiadura bellach yn cynnig yr opsiwn o gyflwyno aseiniadau'n electronig i fyfyrwyr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi farcio'r aseiniadau ag adnodd marcio electronig. Ar gyfer hyn, mae angen copi o Microsoft Word 97 neu ddiweddarach arnoch.

*Disgrifiad o'r cwrs*

Mae Systemau Cisco yn arwain y farchnad ryngwladol, gan gyflenwi offer rhwydweithiol ar gyfer y rhyngwyd, sefydliadau mawr, canolig a bach, yn ogystal â'r defnyddiwr cartref. Hefyd, mae ganddynt raglen academi rhwydweithio ryngwladol hirsefydledig sydd wedi'i hanelu at addysgu gweithwyr rhwydweithio proffesiynol. Rhoddir gwerth mawr ar gymwysterau Cisco yn y diwydiant rhwydweithio, gan gynnig mantais fasnachol a thechnegol i ddeiliaid ardystio a'u cyflogwyr.

Yn ystod y cwrs hwn bydd myfyrwyr yn astudio'r fersiwn ddiweddaraf o gwricwlwm CCNP, gan ddefnyddio amgylchedd dysgu rhithwir ar-lein a ddarperir gan Cisco drwy ei raglen academi. Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, dylent fod wedi'u paratoi'n dda i sefyll arholiad ardystio CCNP TSHOOT.

Mae'r cwrs yn cynnwys ysgol ddydd orfodol a gynhelir mewn academi Cisco CCNP achrededig. Bydd yr ysgol ddydd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ymarferol a thechnegol gan ddefnyddio cyfarpar rhwydweithio go iawn, er mwyn gwella ac ategu'r hyn a ddysgwyd gan y deunyddiau ar-lein. Nid oes rhaid i ddarlithwyr cyswllt addysgu yn yr ysgol ddydd.

Byddwch yn astudio adnoddau cynnal y rhwydwaith, cyfnewid gorchmynion diagnostig a datrys problemau VLAN, datrys problemau EIGRP, OSPF a BGP, cyfeiriadau IPv4 a IPV6 a problemau llwybro, datrys problemau cyfathrebu di-wifr ac unedig, a datrys problemau diogelwch

Mae manylion llawn am raglen academi Cisco ar gael ar wefan yr academi <http://cisco.netacad.net/public/academy/About.html>

#### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- fod yn gymwys fel hyfforddwr i addysgu fersiwn ddiweddaraf CCNP TSHOOT.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad masnachol sylweddol o weithio ar lefel CCNP
- profiad o addysgu ar lefel CCNP
- profiad o addysgu mewn addysg uwch
- bod yn gymwys fel hyfforddwr i addysgu CCNP ROUTE a SWITCH.

#### *Gwybodaeth ychwanegol*

- Er mwyn marcio'r eTMAs gan ddefnyddio'r adnodd marcio electronig, bydd angen copi o Microsoft Word 97 neu ddiweddarach arnoch. Bydd angen o leiaf system ddeialu 56kbps neu fodem band eang arnoch. Byddai'n well cael monitor mawr (17 modfedd, 256 lliw), ac efallai y bydd angen llawer mwy o ofod gwag ar eich disg na'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr. Dylai Microsoft Excel hefyd fod ar gael i chi.

*Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5